# Ymgysylltu â phobl ifanc er mwyn gwella teithio llesol



Gweithredu ar Hinsawdd Cymru
Climate Action Wales

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i **Lywodraeth Cymru**
Transport for Wales is owned by the **Welsh Government**

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Cyflwyniad

## Beth

Bwriad y canllaw hwn yw helpu awdurdodau lleol i ymgysylltu â mwy o bobl ifanc ac i ennyn eu diddordeb mewn ffordd fwy effeithiol. Nod hyn yw cael mwy o bobl ifanc i gerdded, olwynio a beicio ar gyfer eu teithiau bob dydd.

Yn benodol, mae'r canllaw hwn wedi'i anelu at bobl ifanc 16 i 25 oed. Y bwriad yw ategu ein canllaw teithiau ysgol sydd wedi'i anelu at blant dan 16 oed. Bydd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y ddau.

Mae hon yn ddogfen ymarferol a defnyddiol. Rydym wedi cynnal ymchwil yn ogystal â darllen ymchwil sy'n bodoli eisoes i sicrhau bod y canllaw hwn yn hyrwyddo gweithgareddau sy'n gweithio.

Rydym yn croesawu adborth gan bobl ifanc ac awdurdodau lleol. Byddwn yn integreiddio'r adborth hwn ac yn ei gynnwys yn fersiynau nesaf y canllaw hwn yn y dyfodol.

## Pam

Mae bod yn oedolyn ifanc yn gyfnod pwysig ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol. Mae hon yn oedran pan fydd pobl yn gadael addysg orfodol ac yn dechrau addysg uwch, prentisiaethau neu waith. Mae mynediad at gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus dda yn hanfodol i helpu pobl ifanc i gael mynediad i gyfleoedd addysg a chyflogaeth.[1]

Fodd bynnag, mae oedolion ifanc yn gwneud llai o deithiau nag oedolion hŷn.[2] Felly, mae pobl ifanc yn fwy tebygol o ddefnyddio ystod o opsiynau teithio (yn hytrach na'r car yn bennaf).[3] Mae sicrhau bod teithio llesol yn gweithio i oedolion ifanc yn hanfodol os ydynt am elwa ar gyfleoedd a defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy drwy gydol eu bywyd fel oedolyn.

## Sut

Mae Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i newid y ffordd mae pobl yn teithio. Rydym yn gwneud hynny trwy ymyriadau wedi'u targedu yr ydym yn gwybod sy'n gweithio.

Mae'r canllaw hwn yn darparu nifer o syniadau ar gyfer ymyriadau, digwyddiadau ac ymgyrchoedd i'w cynnal ar lefel leol. Fe'u bwriedir i weithwyr cyfathrebu proffesiynol eu defnyddio i hyrwyddo teithio llesol. Mae'n nodi negeseuon allweddol i helpu i oresgyn rhwystrau rhag teithio llesol i bobl ifanc.

Mae'n tynnu sylw at nifer o ymyriadau a all weithio i bobl ifanc. Byddwn yn diweddaru'r astudiaethau achos a'r offer hyn wrth i ni ddeall yn well beth sy'n gweithio i bobl ifanc yng Nghymru.




Mae trafnidiaeth yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad personol pobl ifanc.[4]

Mae pobl ifanc yn fwy tebygol o deithio gan ddefnyddio dulliau trafnidiaeth cynaliadwy.[5]

Mae pobl ifanc yn cydnabod pwysigrwydd lleihau'r defnydd o geir.[6]

# Ymgysylltu â phobl ifanc

## Deall eich cynulleidfa

Er mwyn targedu pobl ifanc yn effeithiol, mae'n bwysig deall y ddemograffeg oedran yn eich ardal chi. Mae'r offer yn cynnwys:

- Cyfrifiad Oedran 2021: [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol]
- Poblogaeth breswyl arferol yn ôl oedran ac awdurdod lleol: [StatsCymru]
- Amcangyfrifon poblogaeth lefel genedlaethol fesul blwyddyn, oedran a gwlad y DU: [StatsCymru]

Gall targedu prifysgolion, colegau a gweithleoedd fod yn ffordd arall o ymgysylltu â phobl ifanc. Rydym wedi cyhoeddi astudiaeth achos ar 'Cysylltu â phobl ifanc yng Ngholeg Castell-nedd Port Talbot' i dynnu sylw at arfer da.

## Cydweithio

Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn cymryd rhan yn y prosesau ymgynghori. Maent yn aml yn adrodd nad yw eu barn yn cael ei chlywed.[7] Trwy wrando a chydweithio, mae ymyriadau yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus ac yn fwy tebygol o gael eu hymwreiddio yn eu bywydau.

Defnyddiwch iaith bob dydd ac osgowch jargon er mwyn ennyn eu diddordeb yn fwy effeithiol. Er enghraifft, defnyddiwch y geiriau 'cerdded, olwynio a beicio' yn hytrach na 'teithio llesol'.

Mae'r canllaw ymgysylltu â phobl ifanc yn nodi [8 syniad gwych] ar sut i ymgysylltu â phobl ifanc yn effeithiol. Er enghraifft, dylid ystyried pobl ifanc fel grŵp rhanddeiliaid ar wahân gyda'u hanghenion a'u gwerthoedd eu hunain.

## Cyfryngau cymdeithasol

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn declyn gwych i gynyddu'r nifer sy'n ymgymryd â theithio llesol. I bobl iau, mae'r cyfryngau cymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn brif ffynhonnell newyddion iddynt (yn hytrach na gwefan newyddion neu ap).[8] Gellid defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol i hyrwyddo seilwaith newydd ac ymgyrchoedd lleol i bobl ifanc. Gellir ei ddefnyddio i ddangos manteision teithio ar feic, ar droed ac ar olwynion bob dydd.

Mae pobl ifanc yn fwy tebygol o ddefnyddio TikTok ac Instagram yn hytrach na Facebook ac X.[9] Canolbwyntiwch ar y mathau hyn o gyfryngau cymdeithasol wrth dargedu pobl ifanc. Meddyliwch am sut i'w cynnwys gan ddefnyddio'r cyfryngau hyn a sut y gellir creu cynnwys gyda'i gilydd.

## Gwerthuso llwyddiant

Mae ymgysylltu yn broses barhaus. Mae'n bwysig cynnig cyfleoedd i bobl ifanc roi adborth ar sut a ble i wella seilwaith, gwasanaethau a mentrau teithio llesol.

Ar y cyfryngau cymdeithasol, gallech dynnu sylw at straeon llwyddiant a thystebau gan bobl ifanc sydd wedi manteisio ar ddulliau teithio llesol ac opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy. Gallai hyn ysgogi pobl ifanc i dorri'n rhydd o'r arfer o ddefnyddio'r car. Mae'n dangos iddynt fod opsiynau eraill yn bodoli y tu hwnt i geir a gall eu hysbrydoli i ddefnyddio dulliau teithio llesol.



# Negeseuon allweddol

## Arbed arian

Mae cerdded yn ddewis rhatach na gyrru neu gymryd trafnidiaeth gyhoeddus. Gyda chwyddiant cynyddol, mae'n hanfodol ein bod yn eirioli dros gerdded ac olwynio. Gallai leihau'r pwysau ar gyllid pobl ifanc yn ystod yr argyfwng costau byw.[10]

Mae'r angen i hyrwyddo cynlluniau i gefnogi mynediad pobl ifanc at offer fel beiciau mewn ffordd effeithiol yn rhywbeth a amlygwyd gan astudiaethau eraill.[11]

Mae angen i randdeiliaid wneud mwy o ymdrech i sicrhau bod gan bob person ifanc fynediad at gynlluniau arbed arian.

## Iechyd meddwl

Mae bron i chwarter y bobl ifanc yng Nghymru yn nodi lefelau uchel o broblemau iechyd meddwl.[12]

Gall cerdded, olwynio a beicio helpu i reoli teimladau o straen a lleihau'r risg o ddatblygu iselder.[13] Mae hefyd yn annog pobl ifanc i gymdeithasu drwy gysylltu â ffrindiau, cymdogion a'r gymuned leol, a all helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd.[14]

Mae cyfleustra a hyblygrwydd teithio llesol yn caniatáu mwy o annibyniaeth i bobl ifanc o ran teithio. Mae hyn yn datblygu teimladau o ymreolaeth ymhlith pobl ifanc a gall gynyddu eu lles hefyd.

## Ffactorau amgylcheddol

Gall pobl ifanc fod yn weithredwyr allweddol wrth godi ymwybyddiaeth ynglŷn â theithio cynaliadwy a mabwysiadu arferion ecogyfeillgar. Gan eu bod yn defnyddio'r car yn llai na grwpiau oedran eraill, maent yn cyfrannu llai at allyriadau carbon.[15] Mae tystiolaeth yn dangos bod ofn a straen yn gysylltiedig â newid hinsawdd yn effeithio ar bobl ifanc.[16]

Bydd grymuso pobl ifanc i godi ymwybyddiaeth ynghylch dewisiadau trafnidiaeth sy'n ymwybodol o'r amgylchedd ac i gymryd rhan ynddynt yn helpu i liniaru newid ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

# Mynediad at gyfleoedd

Mae teithio llesol diogel a chyfleus yn hanfodol er mwyn i bobl ifanc allu cael mynediad at gyfleoedd.[17]

Mae Senedd Ieuenctid Cymru wedi tynnu sylw at bwysigrwydd gwell cysylltedd rhwng gwahanol ddulliau teithio cynaliadwy.[18] Mae'n bwysig cael gwared ar y rhwystrau sy'n wynebu gwahanol grwpiau gan gynnwys pobl ifanc niwroamrywiol, y rhai ag anableddau corfforol a'r rhai mewn ardaloedd gwledig, i sicrhau bod pob person ifanc yn cael mynediad at yr un cyfleoedd.[19]

Efallai y bydd angen i bobl ifanc deithio ar draws ffiniau awdurdodau lleol i gyrraedd cyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau nad yw hyn yn rhwystr i bobl ifanc.[20]



# Ymgyrchoedd sy'n gweithio

## Annog defnydd trafnidiaeth gyhoeddus

Mae trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy yn galluogi pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd.[21] Mae annog mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus hefyd yn cynyddu'r defnydd o ddulliau teithio llesol wrth i bobl gerdded neu feicio i safleoedd bws a gorsafoedd rheilffordd.

Mae nifer o gynlluniau ar waith i wneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy fforddiadwy i bobl ifanc:

- MyTravelPass
- Cerdyn Rheilffordd 16-25
- Cerdyn 16-17 Saver.

Gallai cynyddu ymwybyddiaeth o'r cynlluniau hyn gynyddu'r niferoedd sy'n ymgymryd â theithio llesol yn ogystal â chynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.[22]

## Diogelwch beicio

Mae tystiolaeth yn dangos bod llwybrau beicio yn cael eu hystyried yn llai cyfleus, mewn cyflwr gwaeth ac yn llai hygyrch na llwybrau cerdded.[23] Gallai tynnu sylw at lwybrau beicio ar wahân yn yr ardal leol a'r diogelwch gwell sy'n gysylltiedig â'u defnyddio annog mwy o bobl i ymgymryd â beicio. Mae beicio gyda ffrindiau yn ffordd arall o gynyddu hyder ac adeiladu cymuned o feicwyr.

Dangosodd arolwg a gynhaliwyd gan Senedd Ieuenctid Cymru mai dim ond 18% o 1,300 o bobl ifanc a nododd fod diogelwch parcio beiciau yn eu hardal yn "dda" neu'n "dda iawn".[24] Mae cyfleusterau parcio beiciau diogel mewn cymunedau a mannau dysgu yn hanfodol i annog mwy o deithio ar feiciau.

## Canfod llwybrau

Mae canfod llwybrau yn chwarae rhan hanfodol wrth helpu pobl i lywio'u ffordd o gwmpas ardaloedd cyfarwydd ac anghyfarwydd. I bobl ifanc, mae mannau cyhoeddus yn creu ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn.[25]

Mae canfod llwybrau yn effeithiol yn chwarae rôl bwysig wrth sicrhau bod pobl ifanc yn gallu gwneud teithiau yn annibynnol. Mae angen i systemau canfod llwybrau fod yn hygyrch a rhaid iddynt gael eu cyfathrebu'n glir er mwyn sicrhau bod pob person ifanc yn gallu teithio'n rhwydd.[26]

# Ôl-nodiadau


1 Sustrans, 'Transport to Thrive' (2023), tt6-8.

2 Sustrans, 'Transport to Thrive' (2023), tt11-13.

3 National Survey for Wales (2023).

4 Sustrans, 'Transport to Thrive' (2023), tt6-8.

5 National Survey for Wales (2023).

6 Sustrans, 'Transport to Thrive' (2023), tt11-13.

7 Amy Hazlehurst, 'Engaging young people - 8 top tips' (October 2023).

8 Nic Newman, 'Overview and key findings of the 2023 Digital News Report', June 2023.

9 UKOM, 'Social media use by age' (2023).

10 Sustrans, Helping people through the cost of living crisis and growing our economy: The role of walking, wheeling and cycling (2022).

11 Senedd Ieuenctid Cymru, 'Ffyrdd Gwyrdd' (2023), tt16-18.

12 Cardiff University, 'Nearly a quarter of young people in Wales are reporting very high levels of mental health symptoms following the pandemic' (April 2023).

13 Kelly, P., Williamson, C., Niven, A. G., Hunter, R., Mutrie, N., & Richards, J. (2018). Walking on sunshine: scoping review of the evidence for walking and mental health. British journal of sports medicine, 52(12), tt800–806

14 Living Streets, 'Next steps at university' (no date).

15 Sustrans, 'Transport to Thrive' (2023), t8.

16 Hickman, C. et al, 'Climate anxiety in children and young people and their beliefs about government responses to climate change: a global survey', The Lancet Planetary Health (2021).

17 Sustrans, 'Transport to Thrive' (2023), tt6-8.

18 Senedd Ieuenctid Cymru, 'Ffyrdd Gwyrdd' (2023), tt36-38.

19 Yr Adran Addysg, 'Post-16 transport and travel support to education and training Statutory guidance for local authorities' (2019), tt10-11.

20 Yr Adran Addysg, 'Post-16 transport and travel support to education and training Statutory guidance for local authorities' (2019), tt11-13.

21 The Health Foundation, 'A place to grow: Exploring the future health of young people in five sites across the UK' (2018)

22 Senedd Ieuenctid Cymru, 'Ffyrdd Gwyrdd' (2023), tt16-18.

23 Senedd Ieuenctid Cymru, ' 'Ffyrdd Gwyrdd' (2023), tt30-33.

24 Senedd Ieuenctid Cymru, 'Ffyrdd Gwyrdd' (2023), t31.

25 Yang et al, 'An evaluation of wayfinding abilities in adolescent and young adult males with autism spectrum disorder' Research in Autism Spectrum Disorders (2021).

26 Senedd Ieuenctid Cymru, 'Ffyrdd Gwyrdd' (2023), tt36-38; Sustrans, 'Transport to Thrive' (2023), t28.

